## YR ATODLEN

### GOFYNION AR GYFER DYFAIS A GYMERADWYIR

**1.** Rhaid i'r ddyfais gynnwys camera—

(a) sydd wedi ei osod yn gadarn ar gerbyd, adeilad, postyn neu strwythur arall;

(b) sydd wedi ei osod yn y fath sefyllfa fel y gall weld cerbydau mewn perthynas â pha rai y mae tramgwyddau parcio yn cael eu cyflawni;

(c) sydd wedi ei gysylltu drwy ddolenni data diogel â system recordio; ac

(ch) sy'n gallu cynhyrchu mewn un llun neu fwy, ddelwedd neu ddelweddau gweladwy o'r cerbyd mewn perthynas â pha un y cafodd tramgwydd parcio ei gyflawni sy'n dangos ei nod cofrestru a digon o'i leoliad i ddangos amgylchiadau'r tramgwydd.

**2.** Rhaid i'r ddyfais gynnwys system recordio—

(a) sy'n recordio'n awtomatig gynnyrch y camera neu'r camerâu sy'n gweld y cerbyd a'r man lle mae tramgwydd yn digwydd;

(b) lle defnyddir dull recordio cadarn a dibynadwy sy'n recordio ar gyfradd isafswm o 5 ffrâm yr eiliad;

(c) lle mae pob ffrâm o bob delwedd a ddelir wedi ei hamseru (mewn oriau, munudau ac eiliadau), wedi ei dyddio ac wedi ei rhifo'n olynol ac yn awtomatig drwy beiriant cyfrif gweledol; ac

(ch) pan nad yw'r ddyfais ar safle gosodedig, sy'n recordio'r lleoliad y mae'n cael ei weithredu ohono.

**3.** Rhaid i'r ddyfais a'r peiriant cyfrif gweledol—

(a) bod wedi'u syncroneiddio â chloc safon genedlaethol annibynnol addas; a

(b) bod yn fanwl-gywir o fewn plws neu minws 10 eiliad dros gyfnod o 14 diwrnod a bod wedi ei ail-syncroneiddio â'r cloc safon genedlaethol annibynnol addas o leiaf unwaith yn ystod y cyfnod hwnnw.

**4.** Pan fo'r ddyfais yn cynnwys cyfleuster i argraffu delwedd lonydd, rhaid i'r ddelwedd honno pan y'i hargreffir ddwyn ardystiad o'r amser a'r dyddiad pan ddaliwyd y ffrâm a'i rhif unigryw.

**5.** Pan fo'r ddyfais yn gallu recordio geiriau llafar neu ddata clywadwy eraill yn gyfamserol â delweddau gweledol, rhaid i'r ddyfais gynnwys dull o wirio bod y trac sain, mewn unrhyw recordiad a gynhyrchir ganddo, wedi ei syncroneiddio'n gywir â'r ddelwedd weledol.